Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gonsortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru
# Canolfan Rheidol
# Rhodfa'r Rheidol
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3UE

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓒ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2013**

## Cyd-destun

Mae Consortiwm Dysgu yn y Gwaith Canolbarth Cymru (MWWBLC) yn cynnwys dau gyngor sir (Cyngor Sir Ceredigion a Phowys) a dau goleg addysg bellach (Coleg Ceredigion a Choleg Powys). Sefydlwyd y consortiwm yn Awst 2011.

Mae MWWBLC yn gweithredu o fewn ffiniau daearyddol Ceredigion a Phowys, gyda chanolfannau dysgu wedi eu lleoli ym mhob cwr ohonynt. Mae poblogaeth Canolbarth Cymru tua 208,251, sef tua 7% o boblogaeth gyffredinol Cymru.

Ceredigion yw un o’r siroedd mwyaf yng Nghymru yn ddaearyddol, ac mae’n ymestyn dros bron i 1,800 o gilomedrau sgwâr, er ei bod yn ardal sy’n denau ei phoblogaeth ac wedi’i diffinio fel ardal wledig. Mae tua 76,938 o bobl yn byw yng Ngheredigion. Yng Ngheredigion, mae 52% o’r boblogaeth yn medru’r Gymraeg, sef y gyfran trydydd uchaf yng Nghymru. Y prif sectorau cyflogaeth yw amaethyddiaeth, twristiaeth a manwerthu. Caiff tua 37% o weithlu Ceredigion ei gyflogi yn y sector cyhoeddus, ym maes iechyd, ymchwil a gweinyddu cyhoeddus yn bennaf.

Powys yw’r sir fwyaf a mwyaf gwledig yng Nghymru. Mae tua 131,313 o bobl yn byw ym Mhowys. Mae dros 60% o bobl yn medru’r Gymraeg. Mae tua 59,000 o’r boblogaeth o oedran gweithio ym Mhowys. Cyflogir tua 30% o’r gweithlu yn y sectorau gweinyddu cyhoeddus, addysg ac iechyd. Mae sectorau eraill sy’n gyflogwyr pwysig ym Mhowys yn cynnwys dosbarthu, gwestai a thai bwyta, amaethyddiaeth, adeiladu a gweithgynhyrchu. Mae bron i 75% o gyflogeion ym Mhowys yn gweithio mewn micro fusnes sydd â llai na phump o gyflogeion.

Dyma werthoedd craidd MWWBLC:

- gwneud y mwyaf o botensial unigolion;
- cyflawni rhagoriaeth; a
- chyfrannu at ddatblygiad economaidd.

Mae MWWBLC yn cyflwyno Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch, Ymgysylltu â Hyfforddeiaeth, Hyfforddeiaeth Lefel 1, Bridge2Employment, Camau at Waith, Llwybrau i Waith a Dysgu sy’n Canolbwyntio ar Waith.

Mae’r consortiwm yn arbenigo yn y meysydd dysgu canlynol:

- Amaethyddiaeth
- Mecaneg Amaethyddiaeth
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Gweinyddu Busnes
- Gweinyddu Busnes (Cyfrifyddiaeth)
- Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Adeiladu (Galwedigaethau Coed)
- Electrodechnegol
- Ceffylau
- Gwallt a Harddwch

- Lletygarwch
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Rheoli
- Peirianneg Fecanyddol
- Cerbydau Modur
- Gwaith Plymer
- Manwerthu a Chwsmeriaid
- Weldio

Adeg yr arolygiad, roedd tua 700 o ddysgwyr yn dilyn hyfforddiant.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arni ac yn cyflawni eu targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol wedi bod yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae data diweddar nas gwiriwyd ar gyfer y consortiwm yn y cyfnod rhwng Awst 2011 a Hydref 2012 yn dangos gwelliant sylweddol yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill arnynt.

Mae'r consortiwm yn cyflwyno ystod eang o raglenni hyfforddi sydd wedi cael eu haddasu'n dda i anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Mae hyfforddwyr, aseswyr ac athrawon ar draws y consortiwm yn rhoi lefelau da o gymorth i ddysgwyr. Mae'r cymorth hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau galwedigaethol a chyflogadwyedd yn dda.

Mae aelodau'r consortiwm yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn dda. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith lawn llawer o strategaethau a gweithdrefnau gan mai dim ond yn ddiweddar y cawsant eu cyflwyno.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr yn dechrau dangos tuedd ar i fyny;
- bod y consortiwm yn datblygu grwpiau rheoli ar lefel strategol a gweithredol, gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir;
- bod partneriaid allweddol yn datblygu ethos gweithio fel consortiwm;
- bod y consortiwm yn datblygu strwythur rheoli cynhwysol; a
- bod systemau cyfathrebu gwell ar draws y consortiwm.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt;

A2 ymgorffori ac arfarnu strategaethau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr;

A3 codi safonau addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y consortiwm;

A4 gwella'r arfer o gasglu a defnyddio data i ddadansoddi elfennau allweddol o'r ddarpariaeth yn effeithiol;

A5 datblygu a gweithredu cynllun strategol cynhwysfawr ar gyfer y consortiwm; a

A6 sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ansawdd yn cael eu hymgorffori a'u defnyddio'n gyson ar draws y consortiwm.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn i'r darparwr fynd i'r afael â'r argymhellion o'i arolygiad yn ei gynllun gwella i'r AdAS fel rhan o'i gylch cynllunio gwelliant rheolaidd. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y consortiwm. Bydd pedwar arolygydd yn ymweld â'r consortiwm am ddeuddydd ymhen rhyw flwyddyn o ddyddiad yr arolygiad i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

At ei gilydd, yn y cyfnod rhwng 2008 a 2011, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymhwyster arnynt wedi bod yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae data nas gwiriwyd o Awst 2011 hyd yn hyn yn dangos bod cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella'n sylweddol. Mae'r consortiwm ar y trywydd iawn eleni ar gyfer cyrraedd cyfraddau llwyddo sydd ychydig uwchlaw cymaryddion cenedlaethol y llynedd.

At ei gilydd, mae nifer y dysgwyr Adeiladu Sgiliau sy'n cyflawni pob elfen o'u cynllun dysgu yn anghyson ar draws partneriaid y consortiwm.

Mae bron pob un o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd rhesymol o leiaf yn eu rhaglenni hyfforddi. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu hasesiadau targed ac yn cwblhau ymhell o flaen y raddfa amser darged. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn glir ynglŷn â'r cynnydd y maent wedi'i wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gwblhau eu rhaglen hyfforddi.

Mae safon portffolios Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) dysgwyr yn foddhaol ar y cyfan. Maent yn cynnwys ystod briodol o dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys tystlythyr tyst a thystiolaeth ffotograffig.

Ym mwyafrif y meysydd dysgu, mae dysgwyr yn ennill cymwysterau ychwanegol sy'n gwella eu dewis o swyddi a'u cyflogadwyedd.

Mae bron pob dysgwr yn datblygu lefelau da o fedrau ymarferol a gwybodaeth am theori. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn timau, ac mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dda o sut maent yn bodloni anghenion cwsmeriaid. Maent yn rhoi esboniadau clir am eu gwaith ac yn dangos hyder wrth ddefnyddio'r medrau y maent yn eu dysgu. Mae rhai ohonynt yn dangos ymwybyddiaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy.

Fodd bynnag, at ei gilydd, mae safon gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn amrywio gormod. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau llythrennedd a chyfathrebu llafar da, ond mewn lleiafrif o bortffolios, mae enghreifftiau o sillafu neu ramadeg gwael. Dangoswyd lefelau da o rifedd gan ddysgwyr peirianneg, cyfrifyddiaeth ac amaethyddiaeth, y maent yn eu cymhwyso'n dda yn eu gwaith. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn ennill medrau allweddol uwchlaw lefel eu gofynion fframwaith. Mae dysgwyr sydd â medrau sylfaenol cyfyngedig yn elwa o gymorth effeithiol gan diwtoriaid, sy'n eu helpu i wneud cynnydd.

Rhoddir cyfleoedd rhesymol i lawer o ddysgwyr sy'n medru'r Gymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle neu wrth ymgymryd ag asesiadau. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gyson o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da yn eu hyfforddiant. Maent yn hyderus yn y ffordd y mae aelodau'r consortiwm yn delio â materion ac achosion sensitif fel bwlio neu ymddygiad gwael. Maent yn wybodus ynghylch polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi eu lles, ac yn deall pwysigrwydd teimlo'n ddiogel a chael cymorth da pan fyddant yn y gweithle.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ymddygiad da yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos agwedd gadarnhaol ac aeddfed at eu hyfforddiant. Datblygant eu medrau personol a chymdeithasol yn dda trwy eu profiadau hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwella eu hyder a'u hunan-barch yn eu gweithleoedd ac wrth fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch sy'n bwysig i'w rolau gwaith.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau dysgu ac mae bron pob un ohonynt yn mwynhau eu cyfnod hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu perthynas waith dda gyda'u cyfoedion, eu haseswyr, eu hathrawon a'u cyflogwyr. Mae mwyafrif y dysgwyr yn derbyn mwy o gyfrifoldeb yn eu gweithleoedd wrth iddynt symud ymlaen yn eu hyfforddiant.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n rheolaidd at ddigwyddiadau codi arian sy'n cefnogi elusennau lleol. Datblygant ymwybyddiaeth dda o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a thu hwnt, a dealltwriaeth dda o'r gymuned a'r ddinasyddiaeth ehangach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae rhaglenni hyfforddi yn bodloni anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r gymuned ehangach yn dda. Mewn llawer o achosion, mae cyflogwyr yn rhoi lefelau da o gymorth i ddysgwyr yn y gwaith. Rhoddir gwybodaeth dda i gyflogwyr am y cynnydd y mae eu dysgwyr yn ei wneud. Fodd bynnag, nid yw cyflogwyr bob amser yn cymryd rhan mewn adolygiadau cynnydd dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa o gyfleoedd da i ennill cymwysterau ychwanegol i wella eu rhagolygon cyflogadwyedd. Mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol, gan gynnwys creu cynnyrch i'w werthu ar gyfer elusennau. Mae hyn yn helpu i ehangu eu profiad a'u medrau.

Caiff pob dysgwr asesiadau cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd wrth iddynt ddechrau eu hyfforddiant. Cofnodir y canlyniadau yng Nghynlluniau Dysgu Unigol (CDUau) dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw aseswyr bob amser yn cytuno ar dargedau ysgrifenedig heriol gyda dysgwyr ar gyfer gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r consortiwm yn casglu data yn ymwneud â lefel medrau hanfodol dysgwyr a'r angen am gymorth dysgu unigol yn rheolaidd pan fyddant yn dechrau eu hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r wybodaeth hon yn helpu aseswyr i roi cymorth priodol ac amserol. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn gwneud digon

o ddefnydd o’r wybodaeth hon i ddadansoddi ac arfarnu effeithiolrwydd y cymorth a llywio cynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. At ei gilydd, mae dysgwyr sy’n manteisio ar gymorth medrau sylfaenol yn gwneud cynnydd da.

Caiff darpariaeth Gymraeg ei hyrwyddo’n briodol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyfforddiant ac asesiadau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r consortiwm wedi sefydlu Grŵp Hyrwyddwyr Cymru yn ddiweddar, sy’n dechrau datblygu anghenion siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gan mai yn ddiweddar y cyflwynwyd y grŵp, nid yw ei wedi gwireddu ei lawn botensial eto. Mae’r defnydd hyrwyddol o’r Gymraeg mewn arddangosiadau ac adnoddau addysgu yn anghyson ar draws y consortiwm.

Mewn rhai rhaglenni, mae enghreifftiau da o roi ADCDFE yn ei chyd-destun mewn rhaglenni dysgu. Fodd bynnag, ar draws y consortiwm, ni chaiff ADCDFE ei hymgorffori’n gyson ar draws yr holl feysydd dysgu.

**Addysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae addysgu a hyfforddi ar draws y consortiwm yn ddigonol. Mae staff hyfforddi ac aseswyr yn meddu ar wybodaeth a phrofiad da a chyfoes yn eu maes galwedigaethol. Ychydig iawn o staff sy’n parhau i weithio mewn diwydiant yn rhan-amser i ddiweddaru eu medrau er mwyn iddynt allu rhoi gwybod i ddysgwyr am arfer bresennol.

Mae staff hyfforddi ac addysgu yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau a addysgir yn dda. Mae’r rhan fwyaf o sesiynau yn cynnwys nodau ac amcanion clir. Mae llawer o staff yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu sy’n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn ymgysylltu â nhw. Mae ansawdd taflenni ac adnoddau hyfforddi eraill yn addas ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith, nid yw staff yn herio dysgwyr yn ddigon da bob amser, ac mae’r dysgu yn symud yn rhy araf.

At ei gilydd, caiff dysgwyr eu hasesu yn foddhaol. Mae staff hyfforddi ac aseswyr yn cynllunio asesiadau gweithle yn dda, ac mae arfer asesu yn bodloni meini prawf y corff dyfarnu. Mae’r rhan fwyaf o aseswyr yn gosod targedau realistig ar gyfer dysgwyr i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu portffolio CGC. Mae safon y gwaith ym mhortffolios dysgwyr yn foddhaol ar y cyfan ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth. Mae aseswyr yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr ac aseiniadau portffolio yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn ddigon manwl i helpu dysgwyr i wella. Mewn rhai portffolios, nid yw aseswyr bob amser yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadeg.

Mae aseswyr yn ymweld â dysgwyr yn y gweithle yn rheolaidd i fonitro eu cynnydd. Mewn rhai achosion, nid yw cyflogwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses adolygu, ac ni chânt wybod yn llawn am y cynnydd a wna eu dysgwyr tuag at nodau eu cymhwyster. Nid yw’r targedau a osodir bob amser yn ddigon manwl i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod beth i’w wneud nesaf.

Mae staff hyfforddi ac aseswyr yn dangos perthynas dda gyda dysgwyr a chyflogwyr. Mae’r perthnasoedd hyn yn effeithiol o ran helpu dysgwyr i ddatblygu ystod eang o fedrau ymarferol ar gyfer y byd gwaith, ac maent yn eu helpu i gwblhau eu rhaglen hyfforddi.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn darparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a diogel ar gyfer dysgwyr.

Mae aelodau'r consortiwm yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu hyfforddiant, yn ystod eu cyfnod ymsefydlu a thrwy gydol eu cyfnod yn hyfforddi. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall gofynion eu rhaglenni ac yn codi eu hymwybyddiaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Mae gan bob dysgwr lawlyfr dysgwyr. Mae hwn yn gyfeirbwynt defnyddiol i ddysgwyr i'w hatgoffa am destunau sy'n bwysig i'w lles cyffredinol fel cymorth dysgu, cadw'n iach a diogel, a gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt bryderon.

Mae'r consortiwm wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi iechyd a lles dysgwyr. Mae gan aelodau'r consortiwm bolisïau a gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i iechyd a diogelwch dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am aflonyddwch a bwlio, cyfrinachedd a diogelwch ar-lein. Mae gan bob aelod o'r consortiwm bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac maent yn gweithio'n agos gyda nhw i roi cymorth un i un sy'n bodloni eu hanghenion personol a lles, yn ogystal ag unrhyw anghenion dysgu a allai fod ganddynt. Mae anogwyr dysgu yn rhoi cymorth da i ddysgwyr pan fydd ganddynt anawsterau penodol. Mae gan y consortiwm gysylltiadau da gydag ystod eang o asiantaethau a gwasanaethau y maent yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi anghenion arbenigol dysgwyr.

Mae aelodau'r consortiwm yn casglu data'n rheolaidd ar lefel medrau swyddogaethol dysgwyr pan fyddant yn dechrau hyfforddiant ac ar unrhyw anabledd/anhawster dysgu a allai fod ganddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r wybodaeth hon yn helpu aseswyr i roi cymorth priodol ac amserol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth hon i ddadansoddi ac arfarnu'n wrthrychol effeithiolrwydd y cymorth y mae'n ei ddarparu ac i lywio cynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae'r consortiwm wedi dechrau llunio nifer o strategaethau a datganiadau polisi wedi'u harwain gan y consortiwm sy'n gysylltiedig â gofal, cymorth ac arweiniad dysgwyr. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau hawl gyfartal i ddysgwyr a dull cyson ar draws y consortiwm. Mae'r datganiadau polisi yn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i aelodau'r consortiwm ar ei ddisgwyliadau ynghylch gofynion gwasanaeth gofynnol. Maent yn cynnwys strategaeth ar ddysgwyr a recriwtio, strategaeth adolygu dysgwyr, datganiad polisi diogelu a 'eich llawlyfr lles' ar gyfer dysgwyr. Mae'r dull hwn yn effeithiol o ran rannu arfer dda ar draws y sefydliadau partner. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r dogfennau hyn, ac mae'n rhy gynnar i farnu eu heffaith ar ansawdd y cymorth i ddysgwyr.

## Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r consortiwm wedi ymrwymo i ethos o gynwysoldeb a pharch rhwng yr holl staff a'r dysgwyr, ac mae'n ei annog. Mae'r consortiwm yn defnyddio polisïau a

chynlluniau gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws ei bedwar darparwr. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn arfarnu'n effeithiol y data cydraddoldeb y mae'n ei gasglu. Ni ddefnyddir data yn effeithiol i fonitro sut mae dysgwyr o grwpiau lleiafrifol yn gwneud cynnydd yn eu maes galwedigaethol na sut mae eu cyrhaeddiad yn cymharu â chyrhaeddiad grwpiau dysgwyr eraill.

Caiff dysgwyr wybod am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth foddhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth a materion bwlio ac aflonyddwch. Dangosant ddealltwriaeth foddhaol o bwy i roi gwybod am broblem neu gŵyn. At ei gilydd, mae dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd ac at eu tiwtoriaid, eu hathrawon a'u haseswyr. Fodd bynnag, yn ystod adolygiadau cynnydd dysgwyr, nid yw aseswyr yn rhoi digon o sylw i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

At ei gilydd, mae gan y consortiwm adnoddau dysgu o ansawdd da ar gyfer ei ddysgwyr. Mae bron pob un o'r ystafelloedd hyfforddi yn lân a chroesawgar ac maent yn briodol ar gyfer nifer y dysgwyr. Mae lleoliadau gwaith yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu medrau galwedigaethol a chwblhau ystod eang o asesiadau.

Mewn rhai sesiynau theori a arsylwyd, gwelwyd enghreifftiau da o ddefnyddio deunyddiau dwyieithog. Fodd bynnag, nid yw arddangosiadau cyffredinol mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ddigonol. Mewn llawer o feysydd, maent ar gael yn Saesneg yn unig. Mewn un ystafell ddosbarth, roedd datganiadau ysbrydoledig yn Saesneg gan lawer o addysgwyr rhyngwladol, ond dim un o Gymru.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r consortiwm wedi sefydlu grwpiau rheoli llywio a rheoli gweithredol. Er mai yn ddiweddar y sefydlwyd y grŵp llywio, mae'n rhoi cyfeiriad ac yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer y consortiwm. Mae'r grŵp yn cynnwys uwch reolwyr o'r ddau goleg addysg bellach ac aelodau cabinet o'r ddau gyngor sir. Caiff y grŵp ei gadeirio gan aelod y cyngor ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r ddau gyngor yn dangos diddordeb agos ym mherfformiad y consortiwm, a bydd craffu yn digwydd yn rheolaidd i adolygu cynnydd.

Mae gan y grŵp rheoli gweithredol weledigaeth gynhwysfawr o'r hyn y mae angen i'r consortiwm ei wneud i sicrhau gwelliant yn ansawdd yr hyfforddiant. Neilltuwyd cyfrifoldeb am agweddau allweddol i aelodau'r grŵp. Er enghraifft, mae rheolwyr yn ymgymryd â rolau arweiniol ar strategaethau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd, ADCDFE a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae rheolwyr ar draws y consortiwm yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o bwysigrwydd data cywir ac amserol yn ymwneud â pherfformiad dysgwyr. Maent wedi datblygu systemau gwell ar gyfer casglu a dadansoddi data yn ymwneud â pherfformiad dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith lawn llawer o ddatblygiadau a strategaethau ar yr ystod lawn o weithgareddau hyfforddi.

Ers sefydlu'r consortiwm, bu ffocws cryfach ar agweddau allweddol ar y ddarpariaeth fel ansawdd a'r angen i wella cyflwyno hyfforddi ac asesu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau arnynt ac yn ennill eu cymwysterau.

Mae cyfathrebu ar draws y consortiwm yn gwella. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn dod yn sefydledig. Mae'r darparwr yn dechrau rhoi cofnodion ar ei fewnrwyd MOODLE i sicrhau bod mwy o staff ar draws y consortiwm yn cael mynediad. Fodd bynnag, nid eir i'r afael yn amserol â phwyntiau gweithredu bob amser. O ganlyniad, bu'r consortiwm yn araf wrth fynd i'r afael â meysydd i'w gwella, er enghraifft arsylwadau cymheiriaid ar draws y consortiwm a datblygu polisïau a gweithdrefnau ar draws y consortiwm.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'r consortiwm yn cyfrannu at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol. Mae uwch reolwyr yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyrff lleol a chenedlaethol, sy'n cynnwys y rhwydwaith 14-19 lleol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC).

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae pob darparwr partner o fewn y consortiwm wedi rhoi ystod ddigonol o bolisïau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith. Fodd bynnag, nid yw polisïau a gweithdrefnau trosfwaol ar gyfer y consortiwm wedi cael eu datblygu'n llawn eto.

Mae'r broses hunanarfarnu ym mhob un o aelod sefydliadau'r consortiwm yn darparu gwybodaeth ffynhonnell ar gyfer adroddiad hunanasesu (AHA) a chynllun datblygu ansawdd (CDA) cyffredinol y consortiwm. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n llawn wrth ddatblygu'r adroddiad hunanasesu trosfwaol ar gyfer y consortiwm.

Mae'r AHA yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol. Caiff y cryfderau a nodir gan y consortiwm eu gor-ddatgan yn aml. Nid yw diffygion bob amser yn cynnwys strategaethau ar gyfer gwella na thargedau clir ar gyfer monitro perfformiad, ac nid eir i'r afael â nhw mewn modd amserol bob amser.

Mae'r CDA yn cynnwys gwybodaeth helaeth. Fodd bynnag, nid yw'n blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn glir. Nid yw'r cynllun yn cynnwys digon o dargedau dros dro na cherrig milltir i fonitro a mesur cynnydd.

Mae partneriaid y consortiwm yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i gael safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon a holiaduron i ddysgwyr a chyflogwyr. Mae canlyniadau'r arolygon hyn wedi cael eu dadansoddi a'u rhannu rhwng darparwyr. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â deilliannau'r arolygon wedi cael eu datblygu eto.

Mae uwch staff y consortiwm yn ymwneud yn weithredol â nifer o rwydweithiau arfer broffesiynol ac maent yn aml ar flaen y gad mewn rhwydweithiau 14-19, bwrdd FfHCC, a grwpiau rheoli rhanbarthol a gweithredol.

Sefydlwyd grwpiau ar gyfer rhannu arfer orau ar draws ystod eang o weithgareddau o fewn y consortiwm. Fodd bynnag, ni welwyd effaith y grwpiau ar draws y consortiwm eto.

Mae barnau'r darparwr sydd wedi eu cynnwys yn yr AHA yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r tîm arolygu mewn lleiafrif o feysydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Wrth gynnal ei systemau a'i weithdrefnau ei hun ar gyfer cyflwyno'r contract dysgu yn y gwaith, mae'r consortiwm yn dechrau cael effaith ar safonau a lles dysgwyr. Mae deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr a dewis gwell yn gynyddol o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant wedi cael ei rhesymoli, ac adeiladau wedi cael eu rhannu ymhlith aelodau'r consortiwm.

Mae'r consortiwm yn dechrau cael effaith ar godi safonau dysgwyr. Fodd bynnag, bu'n araf yn sefydlu ei hun. Mae angen i'r consortiwm wneud cryn dipyn o waith cyn i fantais cydweithio gael effaith lawn ar anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yng Nghanolbarth Cymru. Nid yw rheolwyr ac arweinwyr wedi sefydlu hunaniaeth glir ar gyfer y consortiwm a set glir o nodau ac amcanion i roi gwerth ychwanegol i gyflwyno dysgu yn y gwaith yng Nghanolbarth Cymru. Bu cynnydd yn araf hyd yma o ran bwrw ymlaen â datblygiadau.

Mae gan bob un o aelodau'r consortiwm ei gysylltiadau partneriaeth ei hun gyda nifer o sefydliadau a rhwydweithiau yn ei ardaloedd unigol. Mae'r rhain yn cynnwys: Partneriaethau 14-19 yng Ngheredigion a Phowys; partneriaethau 14-19 FfHCC; y Gwasanaeth Gyrfaoedd; y Ganolfan Byd Gwaith; Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Cynhwysiant Ysgolion Cynghorau Sir; Troseddau Ieuenctid; awdurdodau lleol; a sefydliadau gwirfoddol fel Mencap Cymru; Barnardos a Chanolfannau Argyfwng Trefaldwyn.

Mae aelodau unigol o'r consortiwm a'u staff yn mynd ati mewn ffyrdd amrywiol i ddylanwadu ar gydweithio rhwng y sefydliadau hyn. Er enghraifft, rheolwr cyffredinol Hyfforddiant Powys yw cadeirydd y bartneriaeth 14-19 ym Mhowys ac mae'n gweithio'n agos gydag aelodau unigol o'r bartneriaeth. Fodd bynnag, yng Ngheredigion, mae ymglymiad aelodau dysgu yn y gwaith yn llai datblygedig er eu bod yn cydweithio â nifer o ysgolion i gyflwyno profiad galwedigaethol i ddisgyblion. Yn sgil y cynlluniau sydd ar y gweill i ranbartholi partneriaethau 14-19 yng Nghymru, gall y consortiwm gyfrannu'n sylweddol yn y maes hwn hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm wedi penderfynu eto sut y bydd yn rheoli ei berthynas gyda sefydliadau a rhwydweithiau allanol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o'r staff brofiad addas a chymwysterau priodol, ac mae rhai ohonynt yn gweithio o fewn y diwydiant i ddiweddaru eu gwybodaeth bynciol. Caiff staff eu defnyddio'n dda ac maent yn rhoi lefelau da o gymorth personol i ddysgwyr.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfle i wneud defnydd da o adnoddau wrth fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae offer da yn y rhan fwyaf o adeiladau, ac fe gaiff dysgwyr gyfle i wneud defnydd da o offer a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r consortiwm wedi sefydlu mewnrwyd MOODLE er mwyn i staff allu defnyddio adnoddau, ac mae ganddo gynlluniau i drefnu bod dysgwyr a chyflogwyr yn gallu defnyddio'r adnoddau hyn.  Mae'r consortiwm wedi prynu adnoddau yn ddiweddar i gefnogi cyflwyno rhaglenni gofal ac mae'n bwriadu cynnwys y rhain ar y rhyngrwyd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y datblygiadau hyn.

Mae'r consortiwm yn rhoi cyfle rhesymol i staff barhau â'u datblygiad proffesiynol. Cynhaliwyd rhai gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar y cyd yn ymdrin â meysydd pwnc, gan gynnwys ADCDFE a Gofal Plant.  Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm wedi datblygu strategaeth ar draws y consortiwm ar gyfer DPP staff sy'n nodi ei flaenoriaethau yn glir.  Golyga hyn na chaiff arfer dda ei chynnig yn effeithiol ar draws partneriaid.

At ei gilydd, mae aelodau unigol o'r consortiwm yn rheoli eu cyllid yn dda.  Mae cynlluniau i graffu ar gyllid y consortiwm yn cael eu datblygu gan y Grŵp Llywio.

Mae'r consortiwm wedi gwneud cynnydd rhesymol tuag at ddileu dyblygu rhaglenni hyfforddi.  Mae partneriaid wedi tynnu'n ôl o ddarpariaeth lle mae partner arall eisoes yn cyflwyno'r un ddarpariaeth yn y rhanbarth.  Mae'r consortiwm wedi rhoi'r gorau i'w bartneriaeth gydag is-gontractwr yr oedd deilliannau ei ddysgwyr yn wael, a throsglwyddodd y dysgwyr i ddarparwr arall o fewn y consortiwm.

At ei gilydd, mae deilliannau dysgwyr yn ddigonol ac mae'r consortiwm yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Roedd yr ymatebion i holiaduron i ddysgwyr a lenwyd cyn yr arolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan.  Mae llawer o ddysgwyr yn credu eu bod yn cael cymorth da gan eu tiwtoriaid, eu hyfforddwyr a'u haseswyr trwy gydol eu rhaglen hyfforddi.  Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Sandra Bernard | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Tîm |
| Grant Santos | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sian Smith | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rachel Armold | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shirley Minton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aprille Saunders | Enwebai'r Darparwr |